# Cwrs Cyflwyniad i Ffwng y Gawod



Ar 15 Mai 2011, cynhaliodd Cofnod gwrs adnabod ar gyfer pob mathau o Lwydni, Ffwng y Gawod a Ffwng y Penddu yng Ngerddi Botaneg hardd Treborth, Bangor. Arweiniwyd y cwrs gan arbenigwraig leol, Debbie Evans, a roddodd gyflwyniad cynhwysfawr i'r grŵp tacsonomaidd anarferol hwn sy'n cael ei esgeluso'n aml iawn.

Cyflenwodd Debbie amrywiaeth anhygoel (60+) o enghreifftiau ffres, gan dynnu sylw ar unwaith at amrywiaeth y grŵp yma, yn ogystal ag at y llu o blanhigion maent yn byw arnynt fel parasitiaid. Yn wir, roedd arogl a lliwiau llachar y planhigion a'r ffyngau a oedd yn cyfarch aelodau'r cwrs iddynt gyrraedd yn destun siarad ar unwaith ac yn gyfle i bawb drafod ac edrych ar yr enghreifftiau yn anffurfiol.



Roedd y sesiwn yn y labordy yn gyfle i'r cyfranogwyr ddilyn y fethodoleg a amlinellwyd yn y ddarlith, gyda Debbie yn dangos sut i baratoi sleidiau er mwyn archwilio nodweddion microsgopig a macrosgopig. Eglurodd Debbie hefyd pa mor hawdd oedd casglu a gwarchod enghreifftiau ac, fel lleygwr, gallai unrhyw un baratoi enghraifft i arbenigwr lleol ei dilysu a'i chofnodi, hyd yn oed os yw adnabod yr enghraifft yn anodd ar y dechrau.

Amharwyd rhywfaint ar y sesiwn awyr agored yn y prynhawn gan y glaw trwm a'r gwynt, ond roedd gan y cyfranogwyr i gyd ddillad dal dŵr ac roeddent i gyd yn frwdfrydig ynghylch mynd allan i'r awyr agored a dod o hyd i rai enghreifftiau eu hunain. Er gwaetha'r tywydd, casglwyd a chofnodwyd 15 enghraifft ac roedd y rhain yn cynnwys: 10 rhywogaeth o ffwng y gawod, 4 llwydni Downey ac 1 Ffwng y Penddu. **Roedd cyffro mawr o weld** bod 2 ffwng y gawod cyffredin, *Melampsora epitae var. epitae* a *Puccinia coronata* yn byw ar **2 rywogaeth newydd o blanhigion**, y cyntaf ar *Euonymus europaeus* a'r ail ar *Frangula alnus*.



Roedd yr adborth am y cwrs yn dda iawn ac roedd nifer ac amrywiaeth yr enghreifftiau yr oedd modd iddynt eu harchwilio yn y labordy wedi gwneud argraff fawr ar bawb.

Bydd Cofnod hefyd yn cynnal Cwrs Cyflwyniad i Larfa Gweision y Neidr a Mursennod (26 Mehefin 2011) a chwrs Adnabod Cacwn (23 Gorffennaf 2011), fel rhan o gyfres o gyrsiau Haf. Ewch i'n gwefan yn rheolaidd am ragor o wybodaeth.

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP